

Eitem: 19

Teitl: Rhaglen Waith y Bwrdd a'r Blaengynllun

Gweithredu / Action required	Er gwybodaeth
Amseru / Timing	Mai 2025
Argymhelliad / Recommendation	Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r adroddiad hwn wrth baratoi ar gyfer cwblhau'r rhaglen a'r blaengynllun.
Risg / Risk	Os nad yw'r Bwrdd yn datblygu a chytuno ar raglen waith a blaengynllun, mae risg y bydd Llais yn gweithredu a/neu wneud penderfyniadau nad ydynt yn cyd-fynd â'i ofynion statudol gofynnol, ei Reolau Sefydlog ei hun a blaenoriaethau Cynllun Blynyddol Llais.
Cyllid / Finance	Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i'r adroddiad hwn.
Amcan Cynllun Corfforaethol / Corporate Plan Objective	Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud yn arbennig â'n blaenoriaeth i dyfu a gwella fel sefydliad a bod yn sefydliad dibynadwy sy'n cael ei werthfawrogi gan bawb. Bydd trefniadau llywodraethu da yn hwylusydd pwysig ar gyfer gweithredu a chyflawni'n llwyddiannus ar gyfer pob agwedd ar waith Llais ac felly, cyflawni'r holl amcanion allweddol.
Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant / Equity, Diversity & Inclusion	Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol i ddulliau tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant Llais.
Cyfathrebu / Communications	Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar: Mewnol: ein pobl Allanol: ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid Allanol: enw da ein sefydliad

Cymeradwyaeth / Approval/Clearance	Prif Weithredwr
Trafodaethau/ Penderfyniadau Blaenorol / Previous discussions/decisions	Mae'r Bwrdd wedi cael rhaglen waith a blaengynllun ers ei sefydlu, sydd wedi cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd.
Awdur/ Cyflwyno / Author/presenting	Richard Bevan, Ysgrifennydd Bwrdd Dros Dro
Dyddiad / Date	9 Mai 2025
Cefndir / Background	
Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu rhaglen waith a blaengynllun i'r Bwrdd ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, bydd y blaengynllun yn cynnwys eitemau sefydlog angenrheidiol, eitemau i'w penderfynu, trafod a gwybodaeth. Bydd y meysydd gwaith hyn yn cyd-fynd â chynllun blynyddol Llais a'r meysydd busnes a sicrwydd/cydymffurfiaeth y cytunwyd arnynt fel yr amlinellir yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Bydd hefyd ystod o weithgareddau datblygu, ymwybyddiaeth a hyfforddiant (gan gynnwys e-ddysgu), a fydd yn cael eu cynnwys yn y rhaglen waith a'r blaengynllun. Addasodd y Bwrdd ei ymagwedd at agenda ac ystyried meysydd busnes allweddol ar gyfer ei gyfarfod ym mis Ionawr 2025 i flaenoriaethu ei ystyriaeth o straeon pobl, sylwadau a wnaed i a chan Llais, amlinelliad o feysydd blaenoriaeth wrth gynrychioli lleisiau pobl a hyrwyddo ystyriaeth fanylach o berfformiad a gweithgarwch gweithredol. Cytunodd hefyd y bydd cyfres o adroddiadau arddull newydd a dangosfyrddau yn cael eu defnyddio fwyfwy ar gyfer 2025/26. Adolygiad Effeithiolrwydd y Bwrdd: Cynhaliodd y bwrdd hefyd Adolygiad Effeithiolrwydd y Bwrdd cynhwysfawr yn ei gyfarfod ddiwedd Ebrill 2025. Adolygodd y sesiwn hon ei effeithiolrwydd a nododd nifer o feysydd allweddol i'w datblygu yn y flwyddyn i ddod. Mae hyn yn cael ei ysgrifennu ar hyn o bryd a bydd yn llywio cwblhau rhaglen waith a blaengynllun ar gyfer y Bwrdd mewn perthynas â'i gyfarfodydd ffurfiol yn y Bwrdd Cyhoeddus a'i sesiynau datblygu. Amlinellir cyfarfodydd y Bwrdd ar gyfer 2025/26 isod gan gynnwys natur pob cyfarfod a lleoliad daearyddol pob cyfarfod. Bydd y Bwrdd yn ystod y flwyddyn i ddod hefyd yn canolbwyntio ar un o flaenoriaethau y Cynllun Blynyddol, sef hyrwyddo ymgysylltiad â chymunedau a'r	

cyhoedd ymhellach. Mae'n edrych ar ffyrdd newydd a gwahanol o gynnal ei gyfarfodydd i sicrhau bod cymaint o bobl â diddordeb yn gallu mynychu a hefyd i ddatblygu ymhellach y ffyrdd y mae cyfarfodydd yn cael eu trefnu a'u cynnal i hyrwyddo mwy o fod yn agored a thryloywder.

Mae cyfarfodydd y Bwrdd y cytunwyd arnynt fel a ganlyn (mae'r dyddiadau hyn eisoes wedi'u hysbysebu ar wefan Llais ynghyd â gwybodaeth am fynychu'r cyfarfod yn bersonol neu drwy blatfform ar-lein):

23 Ebrill 2025 – Rhanbarth Cwm Taf Morgannwg – Merthyr Tudful (wedi'i gwblhau)

21 Mai 2025 – Rhanbarth Gorllewin Cymru - Aberystwyth (cyfarfod cyfredol)

30 Gorffennaf 2025 – Rhanbarth Gogledd Cymru

24 Medi 2025 – Castell-nedd Port Talbot a rhanbarth Abertawe

26 Tachwedd 2025 – Rhanbarth Caerdydd a'r Fro

28 Ionawr 2026 – Rhanbarth Gwent

25 Mawrth 2026 - Rhanbarth Powys

Bydd y Bwrdd hefyd yn cynnal nifer o sesiynau datblygu a hyfforddi ar gyfer aelodau'r Bwrdd yn unig, a'r rhain yw:

23 Ebrill 2025 (wedi'i gwblhau)

18 Mehefin 2025

22 Hydref 2025

17 Rhagfyr 2025

24 Mawrth 2026

Bydd y Bwrdd hefyd yn trefnu, os oes angen, sesiynau ychwanegol yn ystod y flwyddyn ar gyfer datblygiad ychwanegol a chymeradwyo unrhyw ddogfennau allweddol fel yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon.

Bydd y rhain yn cael eu hychwanegu at y rhaglen waith a'r blaengynllun, fel y bo'n briodol.

Manylion / Detail

Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r adroddiad hwn yn barod i'w drafod ymhellach yn sesiwn datblygu'r Bwrdd ym mis Mehefin a chadarnhau'r rhaglen waith a'r blaengynllun yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf.

